ESGOBAETH LLANELWY
BLWYDDYN O WEDDI 2027

A YEAR OF PRAYER 2027
DIOCESE OF ST ASAPH

Neges yr Esgob ar gyfer Adfent 2026: Blwyddyn o Weddi

Dyma Sul Adfent, ac mae'n bleser ac yn fraint enfawr cael eich annerch eto ar ddechrau blwyddyn Eglwysig newydd. Beth amser yn ôl, awgrymais wrth Bwyllgor Sefydlog yr Esgobaeth – ac roeddent yn hapus i gytuno – y dylem gael thema ar gyfer y flwyddyn Eglwysig newydd hon ac ar gyfer blwyddyn galendr 2027. Bydd y flwyddyn nesaf yn "Flwyddyn o Weddi".

Gobeithio y bydd hyn yn ennyn eich diddordeb ac yn eich cyffroi, ac y bydd yn thema briodol i ysgogi ac arwain ein bywyd ni yn yr esgobaeth.

Mae hanes yn y Beibl, yn yr Efengyl yn ôl Luc, lle daw'r disgyblion at Iesu gyda chais syml iawn: "Arglwydd, dysg i ni weddïo". Mae Iesu, wrth ddysgu, yn pwysleisio grym gweddi. Byddai wastad yn annog ei ddisgyblion i agor eu calonnau i Dduw ac i siarad ag ef fel "Abba" – sef y gair yn iaith Iesu, Aramaeg, am "Dad" neu "Dadi". Dysgodd ef ni i weld Duw fel ffrind agos, rhiant, a chydymaith y gallem rannu ein bywyd ag ef. Ond, er popeth roedd Iesu wedi'i ddysgu iddynt, roedd y disgyblion braidd yn ddryslyd. "Arglwydd, dysg i ni weddïo," meddent. Doedden nhw ddim yn siŵr sut i wneud hynny.

Rydym ni, Gristnogion, yn credu yng ngrym gweddi. Rydym yn bobl sy'n gweddïo'n eithaf rheolaidd, gobeithio. Fodd bynnag, os ydym yn onest, mae'n debygol y byddai pob un ohonom yn dweud nad yw ein bywyd gweddi gystal ag y gallai fod. Weithiau, dydyn ni ddim yn teimlo fel gweddïo, neu ddim yn gwybod beth i'w ddweud wrth Dduw. Beth yw'r ffordd orau o weddïo?

Y bwriad, yn y flwyddyn sydd i ddod, yw gwahodd pawb ohonom i ystyried beth mae gweddi yn ei olygu, nid yn gymaint er mwyn cynnig themâu da ar gyfer ein gweddïau – mae hynny'n digwydd yn naturiol iawn yn ein bywyd bob-dydd ac ym mywyd ein heglwysi – ond er mwyn gofyn y cwestiynau sylfaenol: Beth yw gweddi? Beth yw'r ffordd orau o weddïo? Sut allwn ni feithrin bywyd gweddi? Sut allwn ni fod yn nes at Dduw wrth gerdded gydag ef?

Y gwir yw bod 2,000 o flynyddoedd o Gristnogaeth wedi rhoi llawer o ffyrdd i ni weddïo. Yn rhy aml, dydi gweddi'n ddim ond gofyn am hyn a'r llall – yr hyn a alwn

yn *eiriolaeth*: Arglwydd, rho fwy o heddwch i ni yn y byd; Arglwydd, tyrd â newyn i ben; Arglwydd, helpa fi i wella o fy salwch; Gwna fi'n well; Dangos i mi sut y dylwn ymateb i argyfwng neu bryder; Rho ddiwedd ar ddioddefaint neu boen. Ond, mewn gwirionedd, mae eiriolaeth yn fath eithaf cyfyng o weddi. Mae mathau eraill o weddi hefyd, fel neilltuo amser i ddiolch i Dduw am y bendithion yn ein bywyd; cyffesu ein methiannau a'n gwendidau gerbron Duw, boed hynny yn nhawelwch ein hystafell neu wrth fynd at offeiriad a dweud, "Mae angen i mi siarad â rhywun; mae angen i mi rannu'r pryderon sydd gennyf am fy mywyd, fy llwyddiannau a fy methiannau." Mae angen i ni gynnwys Addoliad hefyd: Sut ddylen ni foli Duw? Sut mae cael gweledigaeth gliriach o pwy yw Duw?

Yna, mae ffyrdd a dulliau o weddio a etifeddwyd gennym. Er enghraifft, mae *Gweddi Iesu*, neu'r *Examen* – sy'n deillio o Ysbrydolrwydd Ignataidd. Efallai bod rhai ohonoch yn dweud, "O ie, rwy'n gwybod am hynny!" ond bod eraill yn dweud, "Am beth yn y byd mae'r esgob yn sôn?!" Mae bob amser fwy i'w ddysgu.

Diben y Flwyddyn o Weddi yw rhoi cyfle i ddysgu mwy; i ehangu ein gorwelion, ac i gael gwybod mwy am sut i gael profiad gwell, dyfnach a mwy llawen wrth rannu ein bywydau â Duw o ddydd i ddydd.

Hoffwn wahodd pob aelod o'r esgobaeth i ymuno â mi yn y Flwyddyn o Weddi sydd o'n blaen i wneud tri pheth:

1. **Gweddïo mwy:** Efallai mai dim ond pum munud y dydd rydym yn ei roi i Dduw mewn gweddi; beth am wneud hynny'n ddeg munud? Efallai ein bod yn dilyn litwrgi'r Eglwys yng Nghymru wrth ddweud y Foreol Weddi a'r Hwyrol Weddi bob dydd, ond beth am fynd yn ddyfnach a gwrando ar eiriau'r Ysgrythur, fel y gallwn ymgolli yng Ngair Duw.
2. **Dysgu mwy am weddi:** Er enghraifft, archwilio sut mae Cristnogion Uniongred y Dwyrain yn gweddïo; archwilio arferion fel y Llaswyr a ffyrdd yr Eglwys Gatholig o weddïo; a darganfod rhywbeth newydd am weddi na ddaethom ar ei draws na rhoi cynnig arno o'r blaen.
3. **Trafod gweddi** yn ein heglwysi a gydag aelodau eraill o'n cynulleidfa. Gadewch i ni ddysgu oddi wrth ein gilydd. Gadewch i ni fod yn gymuned sydd, nid yn unig yn gweddïo, ond hefyd yn sgwrsio am weddi ac yn teimlo'n gyffrous am weddi. Bydd hyn oll yn dyfnhau ein perthynas â Duw.

Dyna flwyddyn gyffrous y gallwn ei chael!

Boed i Dduw ein bendithio ni oll. Amen